Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

National Assembly for Wales
External Affairs and Additional Legislation Committee

Y Gwir Anrhydeddus David Davis AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd

21 Gorffennaf 2017

Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

Fel y gwyddoch o'm llythyr dyddiedig 16 Mehefin 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol adroddiad mewn ymateb i'ch Papur Gwyn *Legislating for the United Kingdom's withdrawal from the European Union*

Yn dilyn cyhoeddi Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yr wythnos ddiwethaf, rydym wedi cynnal dadansoddiad cychwynnol a'i gymharu â'n gwaith ar y Papur Gwyn. Byddwch yn sylweddoli nad yw'r Bil wedi mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd gennym yn ein hadroddiad, yn enwedig o ran y cyfyngiad arfaethedig ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; y swyddogaeth y dylai'r Cynulliad ei chael wrth ddirprwyo a rheoli pwerau arfaethedig i Weinidogion Cymru; a gosod gweithdrefn y Cynulliad.

Rydym bellach yn ystyried y Bil yn fanwl gyda'r bwriad o benderfynu a ddylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad deddfwriaethol i'r Bil.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

Er mwyn ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn, gofynnaf i chi ymateb i'n hadroddiad ar y Papur Gwyn os gwelwch yn dda. Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn wythnos gyntaf mis Medi fel y gallwn ystyried hyn yn gynnar yn nhymor yr hydref.

Un o'n prif bryderon, a godwyd yn ein hadroddiad ar y Papur Gwyn, yw'r diffyg ymgynghori a gafwyd â Llywodraeth Cymru ac, yn fwy penodol, â'r Cynulliad. Yn ein barn ni, byddai sefydlu dulliau cyfathrebu rhwng y Pwyllgor a'ch Adran chi, ar lefel Weinidogol ac ar lefel swyddogol, o fudd i'r ddwy ochr. Roeddwn yn falch o ddeall bod eich tîm ar y Bil wedi cysylltu â Chlerc y Pwyllgor yr wythnos hon, a gobeithio y bydd hyn yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'n pryderon.

Rydym yn eich gwahodd i gyd-gyfarfod o'r Pwyllgor Materion Allanol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn yr hydref fel y gallwn archwilio agweddau perthnasol ar y Bil gyda chi. Mae'n bwysig bod gan bwyllgorau'r Cynulliad gyfle i edrych ar y Bil gyda'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am ei ddrafftio a'i daith drwy'r Senedd, a gobeithio'n fawr y gallwch ymddangos ger ein bron.

Rydym yn deall y pwysau sydd arnoch o ran amser ac rydym yn fodlon bod yn hyblyg o ran cwrdd â chi – gan gynnwys ystyried cynnal cyfarfod yn Llundain a'r tu allan i'n amser cyfarfod arferol os yw hynny o gymorth. Os nad yw'r hyblygrwydd hwn yn ddigonol i ganiatáu i chi gwrdd â ni, yna gofynnwn i chi ystyried sicrhau bod un o'ch Gweinidogion ar gael i ymddangos ger ein bron.

Hoffwn bwysleisio nad ydym, mewn unrhyw ffordd, yn ceisio rhwystro'r DU rhag tynnu allan o'r UE. Fel y dywedasom yn ein hadroddiad, rydym yn deall yr angen i gadw a throsi cyfraith yr UE a'i gwneud yn weithredadwy o'r diwrnod ymadael. Mae ein pryder yn ymwneud â'r setliad datganoli a'r diffyg ymgysylltu â'r Cynulliad, drwy ei bwyllgorau, mewn perthynas â dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru a gwneud trefniadau craffu.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad. Rwyf yn ymwybodol o'r ohebiaeth y bydd y Ppwyllgor yn ei hanfon atoch ar wahân. Rydym wedi cytuno i gydweithio o ran craffu ar y Bil a'r bwriad, felly, yw rhannu eich ymatebion i'n llythyrau perthnasol.

Yn gywir



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.